

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Cofnodion

Teitl y cyfarfod:

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Lleoliad: Cyfarfod dros Microsoft Teams

Dyddiad y Cyfarfod: 17 Hydref 2022

Yn bresennol:

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Polina Cowley, Llywodraeth Cymru

Nichola Salter, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Sarah Hetherington, CNC

Chris Thomas, CNC

Kate Snow, United Utilities

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

David Letellier, CNC

Katy Simmons, CNC

David Ball, AHDB

Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:

Caroline Hawkins, CNC (Eitem 5)

Ysgrifenyddiaeth:

Bronwen Martin, CNC

Ymddiheuriadau:

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Delyth Lewis-Jones, AHDB

Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru) bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddiigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
2. Atgoffodd Zoe bawb bod y cyfarfod diwethaf wedi'i gynnal ym mis Gorffennaf. Roedd nifer o bobl i ffwrdd ym mis Awst a gohiriwyd cyfarfod mis Medi gan ei bod yn Wyl Banc Cenedlaethol ar gyfer Angladd Gwladol Ei Mawrhydi Y Frenhines Elizabeth II.
3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.
 - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.

Eitem 2 Adolygiad o Gofnodion

4. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2022.
6. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na diwygiadau awgrymedig mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Gorffennaf.
7. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, y log gweithredu ac roedd y diweddariadau canlynol yn nodedig:
 - PG Rhag 02: Katy Simmons, CNC, i ddarparu mwy o fanylion ynglŷn â'r niferoedd sy'n tanystrifio i'r cylchlythyr.
 - Dywedodd Katy ei bod wedi llunio adroddiad o'r cylchlythyr diwethaf a ddosbarthwyd ar 24 Awst 2022. Cafodd y cylchlythyr ei anfon at y 612 o

danysgrifwyr bryd hynny. O'r tanysgrifwyr hynny, cyrhaeddodd y cylchlythyr 597 o bobl, a gwnaeth 15 fownsio'n ôl. Dywedodd Katy y byddai'n edrych i mewn i hynny ac yn dileu'r cyfeiriadau hynny os nad ydynt yn gweithio mwyach. Roedd chwe pherson wedi dileu eu tanysgrifiad o'r cylchlythyr hwnnw. Agorwyd y cylchlythyr 788 o weithiau. O ran y cliciau ar y dolenni o fewn y cylchlythyr, cafwyd 63 clic ar y dolenni hynny a'r ddolen fwyaf poblogaidd (18 clic) oedd yr un i ddigwyddiadau llygredd amgylcheddol Cymru a oedd o fewn un o'r erthyglau. Yr ail ddolen fwyaf poblogaidd oedd yr un i'r dudalen wybodaeth ar wefan CNC am yr Is-grŵp hwn o Fforwm Rheoli Tir Cymru a'r drydedd ddolen fwyaf poblogaidd oedd yr un i Adroddiad Siapio Dyfodol Ffermio yng Nghymru NFU Cymru. Adeg anfon y cylchlythyr diweddaraf, roedd 612 o danysgrifwyr ac rydym wedi cael 138 o danysgrifwyr newydd ers hynny. Dywedodd Katy fod y cylchlythyr wedi'i hyrwyddo ychydig yn fwy ar gyfryngau cymdeithasol CNC a'i rannu drwy bartneriaid a rhanddeiliaid.

- Dywedodd Katy ei bod yn dechrau casglu cynnwys ar gyfer y cylchlythyr nesaf a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod wythnos olaf mis Tachwedd. Mae Katy hefyd yn llunio tabl ar gyfer y flwyddyn nesaf o ddyddiadau cau a phryd fydd angen y cynnwys, a fydd yn cael ei ddsbarthu i aelodau. Cadarnhaodd Katy mai'r dyddiad cau ar gyfer cynnwys cylchlythyr mis Tachwedd fydd 4 Tachwedd a gofynnodd i'r aelodau anfon erthygl neu wybodaeth ati erbyn hynny.

PG Hydref 01: Aelodau i ddarparu erthyglau neu wybodaeth i Katy Simmons, CNC, ar gyfer y cylchlythyr nesaf erbyn 4 Tachwedd.

- PG Chwefror 05: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, i weld a oes diweddariad ar denantiaethau a'r gwaith mae DEFRA yn ei wneud.
- Dywedodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru, fod Andrew wedi symud timau ac nad yw bellach yn gweithio ar yr ochr llygredd amaethyddol. Dywedodd Matthew y byddai'n cymryd yr awenau ar y camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer Lywodraeth Cymru.

PG Hydref 02: Bronwen Martin, CNC, i anfon rhestr o gamau gweithredu sy'n weddill ar gyfer Llywodraeth Cymru at Matthew Walters, Llywodraeth Cymru.

- PG 07 Ebrill: Chris Thomas, CNC, i ddarparu cyflwyniad ar y prosiect 4 Rivers for LIFE.
- Dywedodd Bronwen fod Chris a Susie yn gobeithio rhoi cyflwyniad ym mis Tachwedd.
- Dywedodd Chris y dylai fod ganddynt lawer mwy o wybodaeth erbyn mis Tachwedd gan fod y lansiad ymhen ychydig wythnosau.
- PG Mai 05: Aelodau i rannu gwybodaeth am y maetholion o fewn y cylch porthiant, yn enwedig ynglŷn â bwyd dofednod.
- Dywedodd Bronwen nad yw hi wedi derbyn unrhyw wybodaeth gan aelodau a gofynnodd i'r rhai a oedd yn bresennol a oeddent yn ymwybodol o unrhyw

wybodaeth neu ddata neu a oedd ganddynt unrhyw wybodaeth yn y maes hwn. Ni chynigiodd aelodau unrhyw wybodaeth.

- PG Gorffennaf 07: Polina Cowley, Llywodraeth Cymru, i rannu gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch effeithiau allyriadau amonia ar iechyd a diogelwch poblogaethau ffermwyr.
- Dywedodd Polina na fydd hi'n trafod iechyd a diogelwch yn y cyflwyniad heddiw ond ei bod yn bwriadu gwneud cyfres o gyflwyniadau ynghylch amonia ac yn gobeithio trafod iechyd a diogelwch y tro nesaf.

8. Soniodd Zoe am gam gweithredu am hau dan indrawn a gofynnodd i Matthew a oedd gwybodaeth wedi'i dosbarthu. Dywedodd Matthew y byddai'n mynd ar drywydd hyn.

Eitem 3 Materion yn Codi

9. Dyma gyfle i'r grŵp drafod unrhyw faterion sy'n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, dogfennau perthnasol neu bynciau diweddar.

10. Rhoddodd Zoe gydnabyddiaeth ffurfiol i waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Cyflwynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen yr adroddiad i Lywodraeth Cymru i'w ystyried ar 30 Medi 2022. Diolchodd Zoe i bawb a fu'n rhan o'r broses, roedd yn ymdrech aruthrol. Cydnabuwyd nad yw pawb wedi cymeradwyo popeth o fewn yr adroddiad, ond mae'n cynnwys rhai awgrymiadau da iawn ar gyfer mesurau amgen ar gyfer Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Soniodd Creighton am gyfarfod gyda Grŵp Defnydd Tir Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) lle buont yn trafod a ddylid cynnwys logo WEL ar yr adroddiad. Nid yw'r mater hwn wedi'i ddatrys, ond gwerthfawrogir yr adroddiad ac mae llawer o'r argymhellion yn cael eu gwerthfawrogi hefyd, ond ni all pob aelod o WEL ei gymeradwyo.

Gofynnodd Zoe i Lywodraeth Cymru a yw eraill wedi cyflwyno cynigion Mesurau Amgen. Dywedodd Matthew eu bod wedi derbyn tua phump i gyd a bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pob cyflwyniad. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati nawr i roi gwybod i bob un sy'n cymryd rhan beth fydd y camau nesaf. Atgoffodd Matthew y grŵp o'r gofynion o fewn y Rheoliad i'r Gweinidog wneud datganiad am yr hyn sy'n digwydd nesaf (rhaid i ddatganiad y Gweinidog gael ei wneud erbyn mis Ebrill 2023). Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd drwy broses i ddeall beth yw pob asesiad unigol, beth yw'r effeithiau ac yna penderfynu pa gamau (os o gwbl) fyddai'n cael eu cymryd.

Gofynnodd Creighton a yw CNC wedi gwneud cyflwyniad. Cadarnhaodd David Letellier, CNC, fod CNC wedi gwneud cyflwyniad.

11. Gofynnodd Zoe a allai Matthew helpu'r grŵp i ddeall mwy am ddatganiad ysgrifenedig Lesley Griffiths (y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a Threfnydd) ar y Cytundeb Cydweithio: Llygredd Amaethyddol (cyhoeddwyd ar 5 Hydref 2022) – [Llywodraeth Cymru: Datganiad ysgrifenedig - Cytundeb Cydweithio: Llygredd Amaethyddol](#). Dywedodd Zoe fod angen cyfathrebu clir i sicrhau bod pawb yn deall yn union beth mae'n ei olygu. Dywedodd Matthew y cyhoeddwyd datganiad y Gweinidog ar 5 Hydref. Roedd cytundeb gwleidyddol y cytunwyd arno drwy'r Cytundeb Cydweithio

â Phlaid Cymru sy'n ymwneud â gweithio gyda'r gymuned ffermio ar gyflwyno'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Yn y bôn, nid yw hyn yn golygu cael gwared ar y rheoliadau, ac nid yw'n golygu dechrau eto drwy ei adolygu o'r dechrau. Mae'n ymwneud â sut rydym yn mynd ati i weithredu'r rheoliadau – dylid pwysleisio'r gair penodol 'cyflwyno' ('deployment'). Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y sefyllfa wedi bod yn anodd dros y 18 mis diwethaf o ran rhai o'r materion allanol (e.e. costau), sy'n rhan o'r rheswm dros edrych ar y mesur sengl hwnnw o'r rheoliadau. Mae hyn yn effeithio ar un mesur unigol, mae'r oedi hyd at fis Ebrill 2023 ar gyfer y terfyn 170 cilogram yr hectar (kg/ha) o dail da byw ar gyfer y daliad ([Rheoliadau Adnoddau Dŵr \(Rheoli Llygredd Amaethyddol\) \(Cymru\) 2021 - Rheoliad 4](#)). Bydd hyn yn rhoi amser i gynnal ymgynghoriad ar gynllun trwyddedu. Mae'n bwysig iawn nodi y bydd yr ymgynghoriad yn ymgynghoriad llawn ac agored, a bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried safbwyntiau pawb. Bydd y manylion a gyflwynir fel rhan o'r ymgynghoriad yn cynnwys yr hyn a ragwelir (e.e. sut y gallai'r cynllun edrych a sut y gallai weithredu). Dywedodd Matthew eu bod yn gobeithio am 12 wythnos lawn o amser ymgynghori. Fel rhan o hynny, mae'n ein hatgoffa y byddai'r cynllun yn gweithredu tan 2025, felly mae'n eitem drosiannol yn hytrach na newid tymor hir i'r rheoliadau. Ochr yn ochr â hynny, bydd Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd Economaidd ar y newidiadau y bydd y cynllun trwyddedu yn eu gwneud i'r terfyn o 170kg/ha a pha effeithiau y bydd hynny'n eu cael yn amgylcheddol ac yn economaidd. Dywedodd Matthew y bydd fformat y cynllun yn deillio o hyn. Dylid cychwyn y broses ymgynghori tua chanol mis Tachwedd 2022. I gefnogi hynny, darparwyd cyllid ychwanegol hyd at £20 miliwn; nid yw hyn wedi ei bennu/ei ddyrannu'n llawn ar hyn o bryd, felly mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i weithio gyda'r diwydiant ar hynny.

O ran y mesurau amgen, dywedodd Matthew fod gan gynig Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru elfen debyg o ran cynyddu'r terfyn i 250kg/ha. Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanwl ar beth fydd hynny'n effeithio arno ac a fydd rhai o'r awgrymiadau a wnaed o fewn yr adroddiad yn llywio rhan o'r ymgynghoriad. Dywedodd Matthew ei bod yn bwysig iawn dweud y bydd y terfyn o 250kg/ha sy'n destun ymgynghoriad yn amodol ar angen cynyddau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill. Ni ellir gwarantu y caniateir gwasgaru hyd at y terfyn hwnnw gan y bydd yna ystyriaethau eraill, a bydd pob un ohonynt yn rhan o'r ymgynghoriad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar aelodau Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i helpu i ledaenu'r negeseuon ymgynghori drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill a'r diwydiant.

Gofynnodd Dennis Matheson, TFA, am gynlluniau Llywodraeth Cymru ynghylch y materion sy'n ymwneud â thenantiaid yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac a fyddant nawr yn aros nes bod y Gweithgor Tenantiaeth sydd newydd ei ffurfio yn cynnig rhywbeth. Dywedodd Dennis fod yr amser yn prysur agosáu pan fydd rhai o'r rheolau hyn yn cael effaith ddifrifol ar denantiaid. O ran y materion tenantiaeth, dywedodd Matthew fod hyn wedi'i drafod ar draws sawl mis a bod llawer o hynny'n deillio o'r dull cychwynnol o ran gorfodi (sut mae CNC ac RIW yn gweithredu'r gorfodi cychwynnol). Mae prosesau sydd wedi hen ennill eu plwyf o ran ymdrin â'r materion hynny ac nid oes unrhyw newid y tu hwnt i'r mesur sengl a amlinellir yn y datganiad ysgrifenedig.

Trafododd Creighton gefndir y rheoliadau a daeth i'r casgliad nad yw oedi o 3 mis yn afresymol, ond mynegodd siom bod oedi o gwbl. Dywedodd Creighton fod Afonydd Cymru, CFF a rhai aelodau o WEL yn croesawu'r sôn am ddarpariaethau trwyddedu

gan mai dyma'r tro cyntaf i drwyddedu gael ei grybwyll ar gyfer amaethyddiaeth mewn perthynas â materion slyri a maethynnau.

Yn ôl Einir Williams, Cyswllt Ffermio, mae dryswch ymhlith ffermwyr. Mae Cyswllt Ffermio wedi cynnal 15 o sioeau teithiol ar draws Cymru ar y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a oedd yn egluro beth roeddent yn ei olygu a pha gymorth sydd ar gael. Mae'r sioeau teithiol wedi'u mynychu gan lawer o bobl, ond cafodd y tri olaf eu canslo gan ein bod yn disgwyl cyhoeddiad y Gweinidog, a byddant yn cael eu haildrefnu. Cynhelir sesiwn ar 26 Hydref hefyd i ddiweddarau'r rhai a fynychodd y sioeau teithiol.

Gofynnodd David Ball, AHDB, am eglurder ynghylch yr hyn roedd Matthew wedi'i ddweud am yr ymgynghoriad ar drwyddedu ac y byddai angen ystyried gwasgaru ac angen cynydau. Dywedodd David Ball ei fod yn deall bod y rheol 170kg/ha yn ymwneud â nitrogen a gynhyrchir gan dda byw ar y fferm yn unig, ac nad oedd yn ymwneud â gwasgaru neu angen cynydau. Dywedodd Matthew fod geiriad y rheoliad penodol hwn yn dweud na ddylai cyfanswm y nitrogen sy'n cael ei ddefnyddio ar y daliad, boed hynny'n uniongyrchol gan yr anifail neu drwy ei wasgaru, yn fwy na'r terfyn o 170kg/ha. Mae'n gysylltiedig â'r tail a ddefnyddir, ond ar draws y daliad cyfan yn hytrach na'r terfynau unigol ar gyfer caeau unigol, sef y terfyn uwch o 250kg/ha. Dywedodd David Ball, er mwyn cydymffurfio, ei fod yn gwestiwn o faint o nitrogen sy'n cael ei gynhyrchu gan anifeiliaid fesul hectar ar y daliad. Dywedodd Nichola Salter, CNC, fod y terfyn o 170kg/ha ar gyfer cyfanswm y nitrogen o dail da byw ar y daliad. Mae mesurau eraill y bydd angen i chi eu cymryd i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu'n llawn. Dywedodd David Ball, waeth beth fo'r rhif, mae'n gwestiwn o faint o nitrogen sy'n cael ei gynhyrchu gan yr anifeiliaid ar y daliad wedi'i rannu gyda nifer yr hectarau y mae gan y ffermwr fynediad atynt, naill ai ar gyfer pori neu wasgaru. Roedd Nichola yn cytuno ar gyfer y mesur unigol hwnnw, ond atgoffodd pawb bod angen iddynt edrych ar y rheoliadau fel cyfres o fesurau. Soniodd Nichola fod CNC wedi rhyddhau cyhoeddiad yn ddiweddar ar dail a slyri a phryd y maent yn cael eu hystyried yn wastraff o dan y ddeddfwriaeth bresennol - [Cyfoeth Naturiol Cymru - Sut i ddefnyddio tail a slyri yn briodol](#).

Gofynnodd David Ball a fyddai'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y terfyn o 170kg/ha yn erbyn y terfyn o 250kg/ha. Dywedodd Matthew y bydd yn canolbwyntio'n llwyr ar y ddau fater hynny ond, lle mae rhanddirymiadau'n bodoli neu fesurau tebyg yn bodoli mewn mannau eraill, mae angen mesurau rheoli ychwanegol i atal llygredd. Bydd yn rhan sylweddol o'r ymgynghoriad o ran pa fesurau, neu unrhyw gamau gweithredu, y gallai fod eu hangen i atal canlyniadau negyddol ychwanegol rhag bod â therfyn uchel o ran y defnydd o nitrogen. Fodd bynnag, efallai mai'r ymgynghoriad sy'n gyfrifol am y ffaith nad oes angen unrhyw fesurau ychwanegol. Pwysleisiodd David Ball, pan fydd negeseuon yn cael eu cyfleu i ffermwyr, fod angen iddynt fod yn glir ac yn fanwl gywir. Cytunodd Zoe a gofynnodd am grynodedb ynglŷn â'r terfynau ac angen cynydau. Dywedodd Nichola ei fod yn dibynnu ar yr hyn rydych chi'n ei ddefnyddio; mae'r terfyn o 170kg/ha ar gyfer tail da byw ac mae'r terfyn o 250kg/ha ar gyfer tail organig fel y'u diffinnir gan y rheoliadau (unrhyw beth sy'n deillio o blanhigyn, pobl neu anifeiliaid) ond ni allwch ddefnyddio mwy nag y mae'r cnwd ei angen (cynllun nitrogen). Dyma pam mae angen i chi edrych ar y mesurau i gyd gyda'i gilydd yn eu cyfanrwydd gan nad yw'n hollol glir. Mae deddfwriaeth arall y dylid ei hystyried hefyd. Dywedodd Nichola ei bod yn gobeithio cael rhywfaint o ohebiaeth allan er mwyn helpu ffermwyr a'i bod yn cynnal trafodaethau gyda Cyswllt Ffermio a Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio egluro

pethau gan fod dryswch. Awgrymodd David Ball nad yw'n gymhleth cyn belled â bod y dogfennau wedi'u geirio'n gywir heb negeseuon dryslyd.

Gofynnwyd i Creighton egluro bod yna derfyn daliad, ond rydych chi'n dal i fod yn ddarostyngedig i ofynion angen cynydau. Felly, i bob pwrpas, mae dau derfyn yn rhedeg law yn llaw, lle mae gennych derfyn daliad, sef uchafswm y nitradau y gallwch ei roi, ond os oes gennych bridd, sydd eisoes dros y terfyn o ran dirlawnder ffosffad, efallai y byddwch eisoes dros lefelau angen y cnwd cyn i'ch tail gael ei roi. Dywedodd Nichola nad yw'r rheoliadau hyn yn cynnwys ffosffad ar hyn o bryd ond, oherwydd y terfyn nitrogen, byddai sgil-ffaith ar y terfyn ffosffad, dim ond drwy gysylltiad â'r hyn sydd yng nghynnwys y tail. Mae yna derfyn daliad cyfan a therfyn yr hectar, ond mae'n rhaid i chi fod â chynllun nitrogen fel eich bod yn defnyddio'r hyn sydd ei angen ar eich cnwd. Mae eich cynllun nitrogen yn gyfyngedig yn y ffaith mai dim ond 250 cilogram yr hectar o dail organig y gallwch ei ddefnyddio (fel y'i diffinnir gan y rheoliadau), felly gallwch ychwanegu 'gwrtait hewn bag' ato, ond ni allwch roi mwy o dail organig.

Gofynnodd David Letellier a yw ffermwyr yn deall yr hyn sydd wedi'i drafod heddiw ac, os na, beth sydd angen bod ar waith i'w helpu ac a yw'n rhan o gylch gwaith y grŵp hwn i sefydlu rhywbeth. Dywedodd David Ball nad yw llawer o ffermwyr yn deall, a soniodd am y ffaith bod ffermwyr mewn digwyddiadau AHDB yn y gorffennol naill ai'n gyndyn iawn i gyfrannu neu ddim yn gwybod manylion y rheoliadau. Awgrymodd David Ball y byddai sioeau teithiol diweddar Cyswllt Ffermio yn gwybod mwy am y sefyllfa ar lawr gwlad. Roedd Chris Thomas, CNC, yn anghytuno a dywedodd y byddai'r rhan fwyaf o'r ffermwyr y mae wedi siarad â nhw yn deall y rheoliadau. Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r ffermwyr â'r godro sy'n debygol o fynd yn agos at y terfyn hwn ac a allai fod yn anfodlon â'r terfyn, yn ymwybodol ohono. Dywedodd Chris ei fod wedi derbyn mwy o gwestiynau gan ffermwyr biff a defaid. Awgrymodd David Letellier y bydd rhai busnesau yn aml yn cyflogi rhywun i helpu gyda materion amgylcheddol gan eu bod yn gallu fforddio gwneud hynny. Dywedodd David Letellier nad yw hynny'n debygol o fod yn wir i lawer o ffermwyr, ond gallai hwn fod yn faes lle gallai'r grŵp sicrhau'r enillion mwyaf drwy gynyddu ymdrechion o ran gwybodaeth a datblygu'r sgiliau amgylcheddol hynny a'r dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen. Dywedodd Einir bod Cyswllt Ffermio wedi bod yn cynnal gweithdai llygredd amaethyddol ar y llyfr gwaith ym mhob rhanbarth lle maent wedi cynnal y sioeau teithiol llygredd amaethyddol a, hyd yma, eu bod wedi llenwi'r gweithdai ym mhob man. Mae cymysgedd o ran y ffermwyr sydd wedi archebu lle; mae rhai yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud, ond mae'n sioc enfawr i eraill. Dywedodd Einir fod ei chydweithiwr yn y Canolbarth yn cofio bod llawer o ffermwyr biff a defaid yn poeni heb fod angen a bod rhai o'r ffermwyr godro mwy heb fod yn bresennol yn nigwyddiadau Cyswllt Ffermio, sy'n peri pryder. O ran llenwi'r llyfr gwaith ei hun, yn gyffredinol, nid yw'n anodd i'r rhai sy'n gweithio gyda thaenlenni bob dydd, ond i ffermwyr sydd ddim yn gyfarwydd â thaenlenni, nid yw'n dasg hawdd. Felly, efallai y bydd rhai ffermwyr yn talu rhywun arall i'w llenwi ar eu rhan ond, wrth wneud hynny, byddant yn colli perchnogaeth o'r ddogfen. Yn amodol ar y gyllideb, efallai y bydd Cyswllt Ffermio yn gallu cynnal mwy o weithdai ac maent wrthi'n creu fideo 'sut i' i helpu pobl i llenwi'r llyfr gwaith llygredd amaethyddol.

Dywedodd Nichola fod angen cyfathrebu ac arweiniad clir arnom, ond mae angen i ni helpu i atal pobl rhag codi bwganod hefyd. Mae mwy o bobl yn cofrestru ar gyfer digwyddiadau Cyswllt Ffermio, felly gobeithio y byddant yn cael rhywfaint o gyllid ychwanegol i gynnal mwy o ddigwyddiadau; fodd bynnag, nid yw pob ffermwr yn gallu mynychu gweminarau, felly mae dal angen i negeseuon gael eu cyfathrebu'n bwyllog

ac yn rhesymegol drwy gyfryngau eraill. Cytunodd Einir, gan ddweud bod naws a dull cyflwyno gweithdai Cyswilt Ffermio wedi ceisio helpu ffermwyr i beidio â chynhyrfu drwy ddweud wrthynt pa gymorth (e.e. gweithdai, clinigau a chymorthfeydd am wahanol elfennau o'r rheoliadau) sydd ar gael iddynt. Mae llawer o help ar gael i ffermwyr, a dyma oedd y neges yn y sioeau teithiol.

Dywedodd David Ball fod gan AHDB offeryn cyfrifiannell ar-lein defnyddiol iawn o'r enw'r [AHDB: Slurry Wizard](#) sydd ar wefan AHDB. Mae'r offeryn yn caniatáu i'r defnyddiwr gyfrifo ei gydymffurfiaeth â'r rheol 170kg/ha a hefyd ei ofniad storio pum mis yn seiliedig ar yr anifeiliaid sydd ar ei fferm, cyfnod dan do, glawiad, buarthau ac ati. Awgrymodd David Ball y gallai gwybodaeth am offeryn 'slurry wizard' AHDB fod yn rhan o unrhyw gyfathrebu sydd wedi'i gynllunio neu unrhyw weithgarwch arall a fydd yn taflu goleuni ar y rheoliadau i ffermwyr. Soniodd David Ball fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr ar fin lansio cynllun grant ar gyfer storio slyri, a'u bod yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ymgeisydd ddefnyddio 'slurry wizard' AHDB i ddangos ei anghenion o ran capasiti storio.

Cydnabu Creighton ei bod yn drueni nad yw unrhyw un o NFU Cymru yn rhan o'r drafodaeth hon gan fod ganddynt lawer o aelodau a systemau cyfathrebu gwyach. Pe bai NFU Cymru yma, byddem yn gallu gwybod beth roeddent am ei wneud o ran cyfathrebu a gellid bod wedi rhannu rhai o'r pwyntiau a godwyd gyda nhw er mwyn gallu tawelu meddyliau eu haelodau. Gofynnodd Zoe i Bernard a yw'r FUW yn gwneud cyfathrebiadau penodol neu a fyddent yn elwa ar unrhyw help i ledaenu negeseuon i aelodau FUW. Roedd Bernard yn cofio rhywfaint o'r drafodaeth ac awgrymodd ein bod yn y sefyllfa hon gan ein bod yn mynnu cyflwyno rheoliadau ar draws Cymru gyfan. Fel y mae rhai eisoes wedi sôn, ni ddylai hyn fod yn broblem i'r ffermwyr biff a defaid. Pe bai gennym ddull wedi'i dargedu'n fwy, ni fyddai'r materion ynghylch negeseuon a chyfathrebu mor broblemus ag y mae. Yn ôl Matthew, mae Llywodraeth Cymru yn sicr yn ymwybodol iawn y gallai geiriad y datganiad ysgrifenedig greu ychydig o amwysedd. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn mynd tuag at yr ymgynghoriad ac yn darparu gwybodaeth, byddai'n edrych am i randdeiliaid helpu i gyfathrebu'r negeseuon yn glir. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu rhanddeiliaid i weithio gyda nhw i egluro'r iaith fel bod y negeseuon i ffermwyr yn glir.

12. Soniodd Zoe am ychydig o bynciau perthnasol eraill, gan gynnwys adolygiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) a'r data llygredd a gadarnhawyd a ddosbarthwyd i aelodau cyn y cyfarfod. O ran y data a'r graff llygredd a gadarnhawyd, dywedodd Creighton ei bod yn galonogol bod y duedd yn tueddu i fod ar i lawr, ond cwestiynodd beth oedd effeithiau'r cyfyngiadau COVID ar ymweliadau a symudiadau CNC yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd Creighton yn cofio digwyddiad lle nad oedd unrhyw un o CNC yn bresennol, ond eto roedd yn ddigwyddiad a gafodd lawer o effaith. Ar y pryd, cafodd Creighton amryw o esboniadau pam na fynychodd unrhyw un y digwyddiad, gan gynnwys ei fod yn hwyr yn y dydd, cyfyngiadau COVID a'r ffaith ei fod yn flaenoriaeth isel. Dywedodd David Letellier, cyn belled ag yr oedd yn ymwybodol, nad oedd unrhyw gyfyngiadau i waith statudol CNC yn sgil cyfyngiadau COVID, a chafodd staff lythyr i ddangos eu bod yn weithwyr allweddol (e.e. ymateb i achosion o lifogydd a llygredd ac ati).

Eitem 4 Cyflwyniad ar Amonia

13. Rhoddodd Polina Cowley, Llywodraeth Cymru, drosolwg o beth yw amonia a rhwymedigaethau statudol.
14. Mae amonia (NH₃) yn nwy gwenwynig di-liw, hydawdd, hynod adweithiol gydag arogl cryf. Daw'r rhan fwyaf o'r amonia yn yr amgylchedd o ddadansoddiad naturiol tail a phlanhigion ac anifeiliaid wedi marw. Nid yw'r holl nitrogen (o dail a gwrrtaith) yn cael ei gymryd gan blanhigion; mae symiau mawr (tua 50%) yn cael eu colli i'r amgylchedd fel llygrydd drwy darthu, anweddu, nitreiddio, dadnitreiddio, dŵr ffo neu drwytholchi. Pan mae NH₃ yn adweithio gyda'r asidau atmosfferig Sylffwr deuocsid (SO₂) ac ocsidau nitrig (NOs), mae'n cynhyrchu Deunydd Gronynnol (PM) sy'n niweidio systemau anadlu a chardiofasgwlaidd mewn pobl ac anifeiliaid. Dywedodd Polina mewn cyfarfod yn y dyfodol y byddai'n esbonio mwy am sut mae deunydd gronynnol yn effeithio ar iechyd pobl.
15. Dangosodd Polina graff o'r [Rhestr Allyriadau Atmofferig Genedlaethol](#) a ddangosodd dueddiadau normal Cymru ar gyfer pob llygrydd o 1990 hyd at 2017. Yn ôl y graff, nid yw amonia wedi gostwng o gwbl ac, o 2005, mae wedi cynyddu.
16. Mae Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 (NECR) yn gosod Ymrwymadau Lleihau Allyriadau (ERCs) ar y DU ar gyfer 2020-2030 ar gyfer 5 llygrydd allweddol. Mae'r rhain yn adlewyrchu targedau Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE) o dan Brotocol Gothenburg. Lle na ragwelir y bydd y DU yn bodloni ei hymrwymadau NECR, sbardunir rhwymedigaeth i gyhoeddi Cynllun Rheoli Llygredd Aer Cenedlaethol (NAPCP) i nodi mesurau i gyflawni'r ERCs. Mae'r NECR yn gosod targed ar gyfer lleihau allyriadau amonia 8% erbyn 2020 a 16% erbyn 2030 o ffigyrau 2005.
17. Rhoddodd Polina drosolwg o'r tueddiadau llygredd amonia yng Nghymru gan ddefnyddio graff o'r [Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol \(2005-2019\)](#). Daw tua 91-92% o allyriadau NH₃ yng Nghymru o fyd amaeth. 21.48 ciloton (kt) oedd allyriadau NH₃ amaethyddol yng Nghymru yn 2005 ac, yn 2021, amcangyfrifwyd eu bod yn 23.33kt, sy'n gynydd o 8.3%. Yn hytrach na lleihau allyriadau NH₃, maent wedi cynyddu yng Nghymru. Mae dadgyfuno allyriadau NH₃ yng Nghymru yn wahanol iawn i Loegr. Y sector sy'n llygru fwyaf yng Nghymru yw gwartheg: rheoli tail gwartheg (cadw da byw dan do, storio tail a buarthau concriid awyr agored) a'i roi ar dir yw 70% o'r holl allyriadau NH₃.
18. Dywedodd Creighton fod slyri yn sylwedd ffiائد. Mae'n anodd ei reoli fel hylif ac nid oes unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w reoli fel nwy. Dylid bod wedi cael y trafodaethau hyn ddiwedd yr 80au. Mae slyri yn achosi difrod i'r aer (yng nghefn gwlad ac mewn dinasoedd), mae'n achosi difrod i'n dyfrffyrdd ac mae'n achosi difrod i'n tir. Yn ôl Polina, mae'n iawn gweld slyri fel sylwedd ffiائد ond, ar y llaw arall, mae tystiolaeth y gall hefyd fod yn rhan sylweddol o'r economi gylchol a ffermio cynaliadwy. Felly, yn lle edrych arno o'r safbwynt negyddol, gallwn ni geisio dod o hyd i ffordd o ddefnyddio'r maetholion yn lle llygru'r aer gydag amonia a nwyon eraill, neu lygru pridd gyda nitrogen.
19. Cytunodd David gyda Polina a dywedodd y dylen ni fod yn edrych arno fel adnodd gwerthfawr yn hytrach na deunydd 'gwastraff'. Gofynnodd David a oes unrhyw gynigion

wedi'u trafod ar gyfer unrhyw reoliad, deddfwriaeth neu bolisi ynghylch mesurau i leihau allyriadau amonia yng Nghymru. Dywedodd David ei fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr gyda'r Ddeddf Aer Glân a chynigion i reoli rhai gweithgareddau ffermio. Dywedodd Polina na allai wneud sylw penodol ond ei bod yn deall bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn edrych ar ddull gwirfoddol o gyflwyno mesurau amonia sy'n cael ei grybwyll yn y ddogfen [Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025](#). Dywedodd Polina fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi creu canllaw ar gyfer rheoli slyri. Mae'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol hefyd yn cyfrannu at leihau amonia; modelwyd bod disgwyl gostyngiad o tua 1.5% mewn amonia yng Nghymru o ganlyniad i'r rheoliadau hyn. Mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn rhedeg offeryn rhyngweithiol ar-lein diddorol iawn sy'n dangos i ffermwyr sut y gallant leihau amonia.

20. Gofynnodd Chris i Polina beth oedd y manylion o ran amonia o ddofednod ar y graff a ddangoswyd. Cadarnhaodd Polina nad oedd dofednod wedi'i gynnwys ar y graff; gallwch ddod o hyd i ddadansoddiad yn ôl rhywogaeth yn y Cynllun Aer Glân.

Eitem 5 Cynllun Corfforaethol CNC

21. Ymunodd Caroline Hawkins (CNC) â'r cyfarfod er mwyn rhoi trosolwg a diweddariad ar Gynllun Corfforaethol CNC. Cafodd aelodau wybod am gyfle sydd ar ddod i roi adborth a sylwadau ar Gynllun Corfforaethol CNC.
22. Dywedodd Caroline ei bod am godi ymwybyddiaeth o ble mae CNC arni o ran datblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a gwahodd aelodau Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i gymryd rhan dros y misoedd nesaf pan ddaw CNC yn ôl atoch gyda siâp mwy ffurfiol y cynllun. Bydd aelodau'n gallu rhoi adborth ar sut mae'r cynllun yn edrych ac unrhyw beth ynddo rydych chi'n meddwl bod angen i CNC ei ystyried.
23. Bydd Cynllun Corfforaethol nesaf CNC yn mynd â ni at 2027, sy'n cyd-fynd â'r rhaglen lywodraethu bresennol. Esboniodd Caroline beth mae CNC wedi bod yn ei wneud yn ystod y flwyddyn hon ynglŷn â datblygu'r Cynllun Corfforaethol. Casglwyd adborth cychwynnol yn gynharach yn y flwyddyn ynglŷn â sut mae'r cynllun corfforaethol presennol wedi gweithio ac a oes pethau ynddo a allai fod yn wahanol/yn well. Soniodd Caroline y byddai'r cam nesaf gydol mis Tachwedd a bydd cyfle arall i bobl roi adborth. Yna, bydd CNC yn dechrau cwblhau'r cynllun yn barod i fynd trwy'r cymeradwyaethau terfynol i'w lansio yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf.
24. Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn mynd i gyflwyno cyfres o amcanion lles a'r camau i'w cymryd er mwyn eu cyflawni. Bydd CNC yn benodol iawn o ran y camau i wireddu amcanion tymor hwy a fydd yn mynd â ni at 2030 ac yn mynd y tu hwnt i oes y llywodraeth bresennol. Rydym am i'n hamcanion llesiant gynrychioli'r hyn rydym am ei wneud yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Bydd yr amcanion llesiant o fewn ein cynllun yn cyd-fynd â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a dyna pam eu bod yn cael eu galw'n amcanion llesiant.
25. Rydym wedi cyfarfod â Bwrdd CNC a'n Tîm Arwain Gweithredol ac mae'n debygol y bydd ein hamcanion llesiant nesaf yn canolbwyntio ar yr argyfwng hinsawdd, yr argyfwng natur ac atal llygredd.

26. Ar ddechrau mis Tachwedd 2022, hoffem ddod yn ôl at Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i ddangos i chi beth sydd wedi'i ffurfio a'i atgyfnerthu yn dilyn y sesiynau ymgysylltu dros fisoedd yr haf. Bydd tua 6 neu 7 o gwestiynau penodol o fewn y cyfnod cyfathrebu nesaf yn gofyn am eich barn ar yr amcanion hynny, sut rydych chi'n meddwl y maent yn ymddangos a'r broses o'u cyflawni. Yn benodol, rydym am sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol nesaf yn glir ac yn hawdd ei ddeall, sicrhau bod y camau'n ddigon uchelgeisiol i gyflawni'r amcanion llesiant a nodi cyfleoedd yn y cynllun hwnnw.

Eitem 6 Trafodaeth: Blaenoriaethau

27. Cyn y cyfarfod, gofynnwyd i'r aelodau 'beth yw prif flaenoriaethau eich sefydliad ynglŷn â llygredd amaethyddol?' a chawsant gam gweithredu i rannu un neu ddwy flaenoriaeth o'u sefydliad unigol sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru (gan gynnwys unrhyw enghreifftiau o gamau a gymerwyd gan eu sefydliad). Diben y cwestiwn hwn oedd sicrhau bod Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn esblygu a bod ganddo gyfeiriad wrth symud ymlaen i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol a fydd yn bodloni prif themâu'r grŵp. Gofynnwyd i'r rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod e-bostio eu cam ysgrifenedig iddo gael ei ddarllen yn ystod y cyfarfod.
28. **NFU Cymru:** Darparwyd ymateb ysgrifenedig i'r cam gweithredu gan Rachel Lewis-Davies. O ran blaenoriaethau NFU Cymru, mae'r rhain yn cynnwys cefnogi eu haelodau gyda'r rheoliadau a darparu gwybodaeth am ansawdd dŵr drwy eu cyfryngau cyfathrebu. Mae ymgynghoriad ar ddod ar y dull trwyddedu a gynigir gan Lywodraeth Cymru, a bydd NFU Cymru yn gweithio gyda'u haelodau ar hynny.
29. **Undeb Amaethwyr Cymru (FUW):** Dywedodd Bernard y byddai'r FUW hefyd yn anelu at sicrhau rheoliad cymesur. Rydym wedi clywed llawer o'r ymadrodd hwn yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf - 'y goeden iawn yn y lle iawn' - ac mae hynny hefyd yn berthnasol ar gyfer cael y rheoliad iawn yn y lle iawn. Bydd yr FUW hefyd yn ceisio sicrhau digon o amser i fusnesau bontio i'r gofynion newydd, yn enwedig prosiectau seilwaith, felly dylid ymestyn y llinell amser ar gyfer cyflwyno rheoliadau o ystyried costau chwyddiant presennol a'r pwysau ar ddiogelwch bwyd, ac mae llawer o deuluoedd yn mynd i'w chael hi'n anodd cyflawni erbyn y dyddiad cau presennol ym mis Awst 2024.
30. **Dŵr Cymru:** O ran ochr ddŵr y busnes, dywedodd Sarah Jones y bydd Dŵr Cymru yn gobeithio parhau i gydweithio i ddiogelu ffynonellau dŵr yfed y mae Dŵr Cymru'n tynnu dŵr ohonynt ar gyfer dŵr yfed i'r cyhoedd. Byddant yn ceisio diogelu ansawdd y rheini wrth symud ymlaen a'r 23 parth diogelu sydd wedi'u dynodi gan CNC. Bydd Dŵr Cymru yn gobeithio parhau i arwain prosiectau eu hunain neu'n gweithio gydag eraill, er enghraifft, gweithio gyda Chris Thomas, CNC, a'r tîm gyda'r prosiect 4 Rivers for Life. Mae Dŵr Cymru wedi bod yn gyllidwr y prosiect hwnnw ac yn awyddus i barhau i weithio gyda nhw a'r afonydd. Soniodd Sarah fod y gwaith rhagweithiol yn Nalgylch Bannau Brycheiniog yn flaenoriaeth arall i Dŵr Cymru. Maent wedi sefydlu Grŵp Dŵr y Bannau, sef grŵp dan arweiniad ffermwyr sy'n ceisio treialu gwahanol ffyrdd o weithio a allai gael ei ehangu ar gyfer y cyfnod cynllunio asedau nesaf. Bydd Tîm Biosolidau Dŵr Cymru yn parhau i ddilyn y Cynllun Sicrwydd Biosolidau i adennill gwastraff i dir. Soniodd Sarah fod Dŵr Cymru wedi mynd ati'n ddiweddar i benodi Rheolwyr Cyswllt Ansawdd Afonydd, sef rôl newydd sbon a phwynt cyswllt i bobl sydd am wybod mwy am ansawdd dŵr yn eu hardal, gan gysylltu ag Aelodau Seneddol, Aelodau'r Senedd a

chyngorwyr. Byddant hefyd yn cymryd rhan weithredol yn y Byrddau Rheoli Maethynnau sy'n gysylltiedig ag afonydd ACA.

31. **United Utilities:** Yn ôl Kate Snow, mae buddiannau United Utilities yng Nghymru o gwmpas Llyn Efyrynwy, Afon Hafren Uchaf ac Afon Dyfrdwy (mae bron i draean o ddŵr United Utilities yn dod o Gymru). Mae United Utilities wedi bod yn gweithio yn Afon Dyfrdwy ac Efyrynwy ers 10 i 15 mlynedd ac yn rhoi cyngor fferm un-i-un, gan weithio mewn partneriaeth yn bennaf (United Utilities, nid y corff cyflenwi) yn darparu cyngor a chyllid ymyrraeth ar raddfa fach ar ffermydd. Mae gan United Utilities ddiddordeb mewn gwella'r amgylchedd dŵr. Nid oes ganddynt unrhyw asedau dŵr gwastraff yng Nghymru, felly mae popeth y mae ganddynt ddiddordeb ynddo yn gysylltiedig â thynnu dŵr ar gyfer dŵr yfed, cadw biliau'n isel, lleihau ein hól troed carbon a defnydd cemegol. Yn benodol, maent yn cynhyrchu cynnig AMP 8 sydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf ar y cyd â phedwar cwmni dŵr sy'n ei lunio (Hafren Dyfrdwy, United Utilities, Severn Trent a Dŵr Cymru). Ar gyfer Afon Dyfrdwy, mae hynny'n cynnwys cryptosboridiwm, afloywder, lliw, cemegau PFAS (cemegau o bryder sy'n dod i'r amlwg) a phlalladdwyr. Mae United Utilities wedi bod yn gweithio ar Afon Dyfrdwy ers ymhell dros 15 mlynedd, sy'n golygu llawer o fonitro. Soniodd Kate fod angen i United Utilities gynnal rhai ymgynghoriadau rhanddeiliaid ynghylch eu proses cynnig AMP 8. Dyma gyfle gwych i aelodau Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru gyflwyno unrhyw syniadau arloesol am sut y gellir cyflawni pethau ar Afon Dyfrdwy. Dywedodd Kate y byddant yn edrych ar ddarparu mewn partneriaeth fel y gall aelodau gysylltu â hi neu Laura Flower o Severn Trent. Dywedodd Bronwen bod hynny'n gyfle gwych i aelodau Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru gymryd rhan, a gofynnodd i Kate rannu gwybodaeth y gellir ei dosbarthu i aelodau ar ôl y cyfarfod.

PG Hydref 03: Kate Snow, United Utilities, i rannu gwybodaeth y gellir ei dosbarthu i aelodau ynghylch syniadau arloesol ar gyfer gwaith ar y cynnig AMP 8.

32. **TFA Cymru:** Dywedodd Dennis mai'r brif flaenoriaeth i TFA Cymru ar hyn o bryd yw gweithio ar y rhwystrau sy'n bodoli i denantiaid sy'n ceisio defnyddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig oherwydd, ar hyn o bryd, ni fydd llawer o denantiaid yn gallu cael mynediad at y cynllun na manteisio ar rai o'r opsiynau. Soniodd Dennis fod manylion ar gyfer Bil Amaethyddol (Cymru) wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar a oedd i fod i ymdrin â rhai o'r materion hyn, a'i fod yn hynod siomedig nad yw'n gwneud hynny. Fis Chwefror diwethaf, sefydlodd George Eustice Weithgor Tenantiaeth yn Lloegr a chyhoeddwyd adroddiad gan Defra ddydd Iau diwethaf a oedd yn cynnwys 74 o argymhellion ynglŷn â sut y gallai tenantiaid gael mynediad at gynllun Lloegr. Yng Nghymru, dywedodd Lesley Griffiths AS ei bod hi'n mynd i sefydlu grŵp tebyg sydd ond nawr yn cael ei greu, a bydd y cyfarfod cyntaf yn debygol o gael ei gynnal ym mis Tachwedd. Awgrymodd Dennis fod Llywodraeth Cymru wedi cael pedair blynedd i feddwl am rywbeth gan eu bod eisoes yn gwybod beth yw'r problemau. O ran y rheoliadau llygredd, mae TFA Cymru am gael atebion cyn gynted â phosibl.

33. **Hybu Cig Cymru (HCC):** Dywedodd James nad oedd ganddo unrhyw flaenoriaethau penodol i'w rhannu. Nid corff lobio yw HCC, ond maent yn cefnogi pethau sy'n ychwanegu at Frand Cymru. Mae HCC am i ffermwyr fod yn gynaliadwy ac yn broffidiol gan mai dyna sy'n eu cadw mewn busnes.

34. **AHDB:** Dywedodd David Ball fod AHDB wedi canolbwyntio mwy ar nwyon tŷ gwydr yn ddiweddar. Mae carbon a bod yn garbon-effeithlon yn rhywbeth mae AHDB yn

canolbwyntio arno. Mae AHDB wedi bod yn modelu rhai gweithgareddau ffermio neu systemau ffermio nodweddiadol i weld a allant gyflawni sero net. Mae AHDB hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith ar ôl traed carbon ar amrywiaeth o ffermydd a systemau ffermio ledled Cymru ac maent yn datblygu 'canolfan beth sy'n gweithio', a fydd yn cynnwys gwybodaeth am ba fesurau y gellir eu gweithredu ar y fferm i leihau effaith amgylcheddol y gweithgareddau ffermio, a bydd y rhain yn cael eu dangos ac yn cael sgôr yn dibynnu ar ba mor effeithiol ydynt a pha mor fforddiadwy ydynt. Bydd y ganolfan waith hon yn cynnwys llawer o fesurau y gellir eu gweithredu gan ffermwyr i leihau eu heffaith amgylcheddol.

Mae AHDB yn cynnal cyfres o gyfarfodydd ledled y wlad am y rheoliadau dŵr i geisio codi ymwybyddiaeth, amlygu'r hyn y maent yn ei olygu i ffermwyr a thrafod sut y gellir bodloni'r rhwymedigaethau. Roedd AHDB hefyd wedi gwneud llawer o waith ar godi ymwybyddiaeth o amonia pan gyflwynwyd y Ddeddf Aer Glân yn Lloegr. Cynhaliodd AHDB nifer o gyfarfodydd o amgylch y wlad ar amonia a'r hyn y gallai ffermwyr ei wneud i leihau eu hallyriadau amonia, gan gynnwys yr hyn a gynigiwyd yn rheoliadau Lloegr. Awgrymodd David efallai bod AHDB mewn sefyllfa dda i helpu i ledaenu negeseuon ledled Cymru pan fyddwn yn gwybod ychydig yn fwy am y cynigion ar gyfer Cymru. O ran y gwaith modelu mae AHDB wedi bod yn ei wneud, gofynnodd Bronwen a yw unrhyw ran o'r gwaith hwnnw wedi'i gyhoeddi eto ac, os felly, a allai David gyfeirio aelodau Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ato. Dywedodd David nad yw wedi'i gyhoeddi eto; comisiynodd AHDB ddau ddarn o waith yn edrych ar wahanol systemau ffermio a pha fathau o fesurau y gellir eu gweithredu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyflawni sero net ar y ffermydd hynny. Pan fydd ar gael, bydd mewn fformat hawdd ei ddeall yn hytrach nag iaith wyddonol.

35. **Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin (CFF):** Dywedodd Creighton mai CFF yw'r llygaid ar y ddaear gan fod eu haelodau'n cerdded yr afonydd bob diwrnod o'r flwyddyn. Bydd CFF yn cynnal cyfarfod cyn hir i bwysleisio i aelodau bwysigrwydd rhoi gwybod i CNC am ddigwyddiadau drwy'r system adrodd. Bydd aelodau CFF yn cael argymhellion o ran ffyrdd y gallant wella ansawdd eu hadroddiadau er mwyn cael ymateb gwell; gorau'n byd yw'r wybodaeth a ddarperir, y mwyaf tebygol ydych chi o gael ymateb. Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o wrthwynebiad gan fod aelodau CFF yn teimlo nad ydynt yn cael llawer o ymateb pan maent yn adrodd materion. Dywedodd Creighton ei fod wedi esbonio iddynt bod yr ymatebion mae CNC yn eu defnyddio wedi'u graddio yn seiliedig ar ddifrifoldeb y digwyddiad. Bydd CFF yn parhau i annog eu haelodau i adrodd materion.

Dywedodd Creighton fod pryder yn gysylltiedig â'r SFS, gan nad yw'r cynigion presennol yn cynnwys Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac nad ydynt yn amlinellu'r cynnydd mewn opsiynau gorfodi na gweithrediadau rheoleiddio ar gyfer CNC.

36. **Cyswllt Ffermio:** Soniodd Einir yn flaenorol am sioeau teithiol Cyswllt Ffermio a'r weminar sydd ar ddod (26 Hydref). Mae gweithdai hefyd ar gael ar gyfer cwblhau'r Llawlyfr Llygredd Amaethyddol. Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnal gweithdai ar gwblhau mapiau risg hefyd. Mae cymorthfeydd digidol hefyd ar gael lle gall pobl sgwrsio ag ymgynghorydd amgylcheddol ynglŷn â llwytho nitrogen ar y fferm. Mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn rhedeg clinigau fferm ar seilwaith, pridd, tail, dŵr ac arallgyfeirio. Mae tudalen we bwrpasol Cyswllt Ffermio ar gyfer llygredd amaethyddol yn gweithredu fel siop un stop ar gyfer y gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Mae gwasanaethau eraill ar gael megis cymorth mentora. Dywedodd Einir fod Cyswllt Ffermio wir yn

gwerthfawrogi unrhyw gydweithio gydag aelodau a rhanddeiliaid Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i helpu i ledaenu'r neges am y digwyddiadau sydd ar ddod.

PG Hydref 04: Einir i rannu manylion archebu lle ar gyfer gweminar Cyswllt Ffermio gyda'r aelodau.

37. **CNC:** Dywedodd David Letellier ei bod yn bwysig bod CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar adnoddau. Mae materion ynghylch adnoddau bob amser yn cael eu helpu gan y galw. Gwnaeth David atgoffa'r grŵp o ba mor bwysig yw adrodd unrhyw achosion o lygredd.

Mae gan CNC rôl ym maes arloesi, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Yn gynharach, gwnaethom siarad am reoli slyri a beth sy'n digwydd yn barod. Efallai bod yna gyfleoedd pellach a allai gael eu treialu yng Nghymru. Trafododd David rôl CNC o ran arloesi a thystiolaeth.

Dywedodd David y byddai'n dda cael mwy o ddealltwriaeth o bwy sy'n ymweld â pha fferm yng Nghymru. Mae CNC yn cynnal ymweliadau cydymffurfio a chynghori ac mae Cyswllt Ffermio yn ymweld â ffermydd, ond a yw cyrff anllywodraethol yn ymweld â ffermydd. Mae llu o bobl yn gweithio tuag at nod cyffredin, felly byddai'n dda deall pa sefydliadau eraill sydd hefyd yn cynnal ymweliadau. Byddai hyn yn helpu i ddeall y cysylltiadau, er enghraifft, edrych ar yr hyn rydym i gyd yn ei wneud, deall faint o adnoddau sydd yna, deall a ydym yn targedu'r ardaloedd cywir neu a ydym yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau cyfyngedig. Dywedodd David fod hyn yn rhywbeth yr hoffai ei wneud yn y 6 i 12 mis nesaf.

Dywedodd Zoe ei bod yn falch o glywed David Letellier yn tynnu sylw at bwysigrwydd tystiolaeth. Yn ddiweddar, rhoddwyd sylw i 'wyddoniaeth dinasyddion' a ddefnyddir i helpu i gefnogi a chasglu tystiolaeth. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld hyn yn cael ei ddefnyddio gan ffermwyr neu bysgotwyr. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, fod gan CNC ffrwd waith ar Wyddoniaeth Dinasyddion o ran sut mae modd ei defnyddio. Er hynny, mae un o'r anawsterau yn ymwneud â'r egwyddorion, fel yr hyn y gallwn ei ddefnyddio ar ei gyfer a sut y gallwn wneud y gorau ohono. Mae hyn i gyd yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd, ond mae wedi bod yn datblygu dros yr haf. Awgrymodd Sarah y gallai cydweithiwr, Sue Byrne, fod ar gael i roi cyflwyniad ac esbonio'r broses i aelodau.

PG Hydref 05: Bronwen Martin, CNC, i wahodd Sue Byrne, CNC, i ddarparu cyflwyniad am wyddoniaeth dinasyddion mewn cyfarfod yn y dyfodol.

38. **Llywodraeth Cymru:** Dywedodd Matthew ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn sy'n digwydd nesaf o ran yr ymgynghoriad ar gyfer y cynllun trwyddedu. Mae cais tymor hwy gan y grŵp hwn yn gysylltiedig â'r adolygiad statudol pedair blynedd o fewn y Rheoliadau, felly o safbwynt rheoleiddio, byddai Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddechrau'r broses honno, yn ôl pob tebyg, tua dechrau i ganol 2023. Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau cyflwyno'r dystiolaeth ac edrych ar beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio gyda'r rheoliadau. Dywedodd Matthew mai rhagolwg yw hwn i bobl rannu pethau, y gall lywio'r adolygiad o'r trafodaethau yn y grŵp hwn, yn enwedig o ran technolegau amgen a lle gallai rheoliadau fel y maent wedi'u strwythuro ar hyn o bryd fod yn rhwystrau i ddefnyddio technolegau amgen.

Dyweddodd Polina y byddai'n darparu mwy o wybodaeth am sut mae amonia yn effeithio ar iechyd a'r amgylchedd yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd Polina fod ganddi ddi-ddordeb mawr hefyd mewn technolegau amgen, yn enwedig o ran amonia a thrin slyri.

PG Hydref 06: Polina Cowley, Llywodraeth Cymru, i roi cyflwyniad am sut mae amonia yn effeithio ar iechyd a'r amgylchedd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

39. Soniodd Shane Thomas, CFF, am yr angen i gynnal mwy o wylidwriaeth ar dynnu dŵr heb ganiatâd ar ddalgylchoedd ledled y Gorllewin. Mae hon yn broblem gynyddol, yn enwedig eleni, ac mae wedi dod yn eithaf amlwg oherwydd diffyg dŵr, ac mae llawer o nentydd bach yn sychu i fyny yn llwyr.
40. Diolchodd Zoe i bawb am rannu eu blaenoriaethau. Mae hwn wedi bod yn gyfle gwych i ddeall beth sy'n digwydd ym mhob un o wahanol sefydliadau Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Eitem 7 Unrhyw Fater Arall

41. Rhoddodd Marc ddiweddariad byr ar broses y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI). Cyn COVID, cynhaliwyd cyfarfod i edrych ar y gwahanol heriau. Mae Datganiad o Ddi-ddordeb (EOI) bellach wedi'i lunio. Yr her gyffredinol y mae hyn yn canolbwyntio arno yw effeithlonrwydd maethynnau a sut y bydd ffermwyr yn cael eu galluogi i ddefnyddio gwartaith organig ac wedi'i weithgynhyrchu mewn ffordd sy'n cefnogi cynhyrchiant ffermydd heb achosi llygredd. Yn ddiweddar, cyfarfu Marc ag Arloesi Aber a Llywodraeth Cymru ynghylch yr SBRI a sut y gall symud ymlaen. Gofynnodd Marc i'r grŵp a oeddent yn credu bod effeithlonrwydd maethynnau yn dal i fod yn allweddol, sut y gallwn ddod o hyd i atebion arloesol ac a oes ffyrdd arloesol o wneud maethynnau'n fwy effeithlon ar ffermydd. Gofynnodd Marc hefyd am gyfraniad aelodau'r grŵp hwn. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod cyfraniad grŵp rhanddeiliaid fel hyn o'n plaid ni o ran cael y cyllid, yn enwedig ar gyfer cam un sy'n cael ei ariannu 100% gan Lywodraeth Cymru. Yna, wrth symud ymlaen i gam 2 (y cyfnod arddangos), mae tua 50% yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a byddai gweddill y cyllid yn dod o ffynhonnell arall. Gofynnodd Marc a oes unrhyw aelodau a allai ddarparu unrhyw gyfraniad ariannol tuag at hyn. Mae'n dal i fod yn y cyfnod cwmpasu, felly mae'n annhebygol iawn y gallem cyflawni unrhyw beth yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, os gallwn gwmpasu'r prosiect a chael ymrwymiad gan aelodau (boed hynny'n gyfraniad mewn nwyddau, adnoddau neu ariannol), gallwn symud hyn ymlaen drwy ei hysbysebu, archwilio'r busnesau a chael panel o bobl sy'n barod i fod ar Fwrdd Prosiect i benderfynu pa brosiectau/busnesau i'w cefnogi. Dywedodd Marc y byddai'n sicrhau bod pawb yn cael y newyddion diweddaraf ar y mater. Dywedodd Zoe fod hon yn fenter dda i barhau i'w datblygu. Gofynnodd Marc i'r aelodau gysylltu ag ef yn uniongyrchol os ydynt yn fodlon cyfrannu neu os oes ganddynt unrhyw gwestiynau.

PG Hydref 07: Aelodau i gysylltu â Marc Williams, CNC, ynglŷn â chymorth ar gyfer y cyfle SBRI.

42. Soniodd Zoe fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud gyda'r cwmnïau dŵr i leihau llygredd. Awgrymodd Zoe efallai y gallai cyfarfod yn y dyfodol gynnwys trosolwg ar beth sy'n digwydd o safbwynt CNC ac o safbwynt y cwmni dŵr ynghylch sut y maent yn mynd i'r afael â hynny. Bu cynnydd mawr yn y gwaith i leihau'r llygredd gan gwmnïau dŵr a chan bob un ohonom ni fel defnyddwyr.

43. Atgoffodd Zoe y grŵp y bydd y Ffair Aeaf yn cael ei chynnal ar 28 a 29 Tachwedd 2022 ar faes y Sioe Fawr.
44. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun 21 Tachwedd 2022.

Diwedd y cyfarfod